



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Taflen gryno asesu effaith

Blaenoriaeth genedlaethol: Llythrennedd Rhifedd Tlodi

Ffocws a/neu gwestiwn ymholi'r CDP: Ticiwch ✓

Oedd y CDP wedi rhoi sylw i'r ffocws/cwestiwn ymholi?

Yn llwyr Gan fwyaf Yn rhannol Nac oedd

Pa lefel o effaith oedd y CDP wedi'i chael ar ansawdd a chysondeb y dysgu a'r addysgu yn gyffredinol?

Sylweddol Cadarnhaol Ychydig

Arfarnu effeithiau

Rhowch fanylion am y grŵp o ddysgwyr a dargedir a'r mesur data a ddefnyddir.

Tracio data dysgwyr gwirioneddol gyda gwaelodlin ar ddechrau'r CDP a manylion am asesiadau diwedd cyfnod allweddol, profion darllen, ac ati, sgoriau Profion Dawn Gwybyddol, sgoriau cynnydd dal i fyny, SAS, ysgolion sgiliau, ac ati, yn unol â'r ffocws. Offer mesur meddwl os yw'n gymwys megis systemau graddio hunan-barch neu holiaduron agwedd a chymhellant.

Ar ôl dadansoddi'r data craidd gan yr holl ysgolion, fe ganolbwyntiodd y Gymuned Dysgu Proffesiynol ar " Ddefnydd effeithiol o gwestiynu er mwyn gwella perfformiad disgyblion", yn enwedig er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cyrraedd Lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

O wneud hyn, roeddem yn disgwyl y byddai'n effeithio ar yr holl ddisgyblion, waeth beth fo eu gallu.

Er mwyn cael gwaelodlin, edrychodd y staff ar y lefelau llefaredd a roddwyd ar INCERTS ar ddiwedd y flwyddyn academaidd flaenorol (Gorffennaf 2013).

Cynhaliwyd arsylwadau manwl gan y Pennaeth, i edrych ar y gwaelodlin ar gyfer cwestiynu, gan ddadansoddi'r ystod lawn o gwestiynau.

Cynhaliwyd yr arsylwadau yn Nhymor yr Hydref 2013 ac unwaith eto yn Nhymor y Gwanwyn 2014.

Dadansoddwyd y canlyniadau gan y Pennaeth ac mae'r data'n dangos bod cynnydd amlwg mewn Cwestiynu Lefel Uwch drwy'r ysgol gyfan. (Gweler ffeil fonitro'r Pennaeth am ddadansoddiad o'r canlyniadau).

1. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y dysgwyr a dargedwyd gan y CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Asesiad athrawon a chanlyniadau profion cenedlaethol. Sgoriau gwerth ychwanegol FFT, Profion Dawn Gwybyddol. Agweddau at ddysgu, hunan-barch neu offer asesu dawn eraill. Data ymddygiad a phresenoldeb os yw'n berthnasol. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Aseswyd sgiliau llefaredd ym mlynnyddoedd 5/6 ym Mehefin '13 ac wedyn ym Mehefin '14; mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant sylweddol yn nifer y plant a gyrhaeddodd lefelau 4 a 5.

| | | | | | |
|-------------|---|---------------|-------------|---|---------------|
| Mehefin '13 | – | 76.9% lefel 3 | Mehefin '14 | – | 7.1% lefel 3 |
| | – | 15.3% lefel 4 | | – | 67.9% lefel 4 |
| | – | 0% lefel 5 | | – | 25% lefel 5 |

Mae canrannau'r is-lefelau a gafwyd fel a ganlyn:

- 1 is-lefel – 7.1%
- 2 is-lefel – 39.3%
- 3 is-lefel – 28.6%
- 4 is-lefel – 7.1%
- 5 is-lefel – 17.9%

Dadansoddiad lles (Tymor yr Haf 2014) – Rhoddwyd holiadur i'r plant i gyd er mwyn mesur pa mor hapus oeddent yn yr ysgol.

Roedd yr holiadur yn mesur lles ar raddfa o 1–10 (10 oedd yr hapusaf).

Dadansoddwyd 179 o blant o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 ar gyfer yr adroddiad hwn. Ar gyfartaledd roedd sgôr cyffredinol lles o fewn yr ysgol yn 9.29.

Canfuwyd o edrych ar y data mai'r dosbarthiadau hapusaf oedd Dosbarth 1 a Dosbarth 7, a'r lleiaf hapus oedd Dosbarth 5. Roedd ambell broblem wedi codi gydag ymddygiad yn y dosbarth hwn yn ystod y tymor.

Nododd aelodau'r Gymuned Dysgu Proffesiynol hefyd:

- Fod yr athrawon yn ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith y disgyblion.
- Fod y disgyblion fel petaent yn fwy hyderus wrth ofyn/ateb cwestiynau lefel uwch.
- Nad oedd cyfyngiad ar y dysgu mwyach, fel y gallai disgyblion lwyddo ar bob lefel.
- Fod cyfleoedd amrywiol yn cael eu darparu i'r holl ddysgwyr allu defnyddio pob math o dechnegau i ofyn cwestiynau.

2. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar aelodau proffesiynol o'r CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Safonau proffesiynol wedi cael sylw a'u datblygu gan y CDPau. Gallu i gynnal prosiect ymchwil ar raddfa fach. Gallu defnyddio offer asesu dawn. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth a ddatblygwyd gan y Gymuned Dysgu Proffesiynol:

- Roedd y Safonau'n rhoi cyfle i'r staff ddatblygu'n broffesiynol a chynnal deialog.
- Cafwyd nad oedd y broses yn feirniadol nac yn fygythiol, ond roeddent yn gosod heriau i'w gilydd.
- Roedd y broses wedi datblygu a gwella lles y staff (CA2).
- Cafwyd cyfle i arsylwi a rhannu arferion da a syniadau – roddwyd y rhain ar waith yn sgil y Gymuned Dysgu Proffesiynol.
- Parhawyd i roi'r sgiliau a enillwyd ar waith ac fe barhaodd y deialog ag aelodau'r Gymuned Dysgu Proffesiynol.
- Mae'r addysgu wedi cyrraedd 'rhagorol' mewn rhai arsylwadau; lle roedd yn 'dda' roedd elfennau 'rhagorol' i'w gweld yn awr.
- Roedd gan y staff fwy o wybodaeth oherwydd eu bod wedi gwneud ymchwil unigol/mewn grŵp ac mae'r arferion proffesiynol wedi gwella.

3. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y gymuned ysgol ehangach?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Yr ysgol gyfan yn mabwysiadu dulliau neu strategaethau yn dilyn casgliadau a barn y CDP. Rhieni yn cymryd rhan mewn gweithdai Llythrennedd neu Rifedd. Ymatebion gan athrawon a staff nad ydyn nhw'n y CDP. Ymatebion gan rieni/ofalwyr y dysgwyr a dargedir. Llywodraethwyr a grŵp rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r ffocws a'r effaith. Beth yw gwaddol y CDP arbennig hon?

Defnyddiwyd Cynllun Datblygu'r Ysgol fel llwyfan ac mae'r Gymuned Dysgu Proffesiynol wedi bwydo'n uniongyrchol i'r Cynllun.

Llefaredd – Nid oedd llawer o blant yn cyrraedd Lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ym Mlwyddyn 6 a phenderfynwyd bod hwn yn faes y dylid ei wella.

- Gwella lefelau llefaredd drwy'r ysgol gyfan a chadw'r safon yn uchel.
- Penderfynwyd y byddem yn rhoi adnoddau perthnasol ar ddreif T yn ganolog er mwyn i'r staff i gyd allu cael atynt.
- Mae'r staff yn parhau i sicrhau bod cwestiynu Tacsonomeg Bloom yn ymwreiddio ym mhob maes yn y cwricwlwm.
- Pan fyddant yn cynllunio, mae'r staff yn cadw mewn cof y cwestiynau sydd i'w gofyn er mwyn cael y disgyblion i gyd i feddwl a dysgu ar lefel ddyfnach.
- Hysbyswyd y llywodraethwyr am y Gymuned Dysgu Proffesiynol mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu – gweler adroddiad y Dirprwy Bennaeth.
- Dilyn Ymlaen – Bydd Crynodeb Asesiad Effaith y Gymuned Dysgu Proffesiynol yn cael ei rannu â'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr.

4. Gwersi a ddysgwyd ac arsylwadau gweithredol allweddol.

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Beth oedd wedi gweithio'n dda? Beth oedd heb weithio crystal? Beth fyddech chi'n ei newid neu'n ei fireinio o ran rhedeg CDP newydd?

Y pethau a weithiodd yn dda:

- Y rota oedd wedi'i gynllunio ar gyfer arsylwi mewn dosbarthiadau a chynnal cyfarfodydd yn dilyn hynny.
- Fe wnaeth y canlyniadau wella (gweler y data).
- Canfu'r staff fod yr arsylwadau'n anffurfiol ond hefyd yn broffesiynol.
- Cyfle i weithio gyda phlant mewn gwahanol ddsbarthiadau.
- Proses drefnus y bydd Cymunedau Dysgu Proffesiynol yn elwa ohoni yn y dyfodol.

Pethau y gallem eu gwella/mireinio:

- Mae arnom angen gwranddo ar y dysgwyr a barnu beth yw'r effaith arnynt.
- Rhannu gwybodaeth â rhieni, fel y gallant weithio ar agweddau allweddol gartref, e.e. datblygu llyfryn cwestiynau darllen.
- Ceisio cadw at amserlen a bennir (lle bo modd).

At y dyfodol:

- Cynnwys cyfarfodydd pellach y Gymuned Dysgu Proffesiynol fel rhan o gyfarfodydd cyfnod neu sesiynau ar ôl ysgol, fel na fydd y gwaith yn amharu gormod ar yr addysgu a'r dysgu.